

# Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru

## Creu Cymru Fwy Diogel

## Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

### Cyfleoedd Cyfarwyddwr Gweithredol



# Cynnwys

**Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr | Cyfleoedd Cyfarwyddwr Gweithredol**

**Croeso a Chyd-destun**

**01** Croeso gan y Cadeirydd

**02** Croeso gan y Prif Swyddog Gweithredol

**03** Ein Diben a Pham Mae Hyn yn Bwysig

**04** Ein Huchelgais

**05** Ein Haddewid i Chi

**06** Eich Addewid i Ni

**Y Rôl**

**07** Y Cyfle

**08** Manyleb y Person

**Y Broses Ymgeisio**

**09** Sut i Wneud Cais

**10** Taith Recriwtio

**Gwybodaeth ychwanegol**

**11** Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

**12** Gwobrwyo a Buddiannau

**13** Neges i Gloi



# Croeso gan y Cadeirydd

Diolch am eich diddordeb mewn ymuno ag Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru.

Mae sefydlu'r Awdurdod yn garreg filltir bwysig i Gymru. Wedi'i greu drwy ddeddfwriaeth nodedig a basiwyd gan y Senedd gyda chefnogaeth eang, mae'n adlewyrchu ymrwymiad cenedlaethol ar y cyd i amddiffyn cymunedau drwy ddull modern, cydgysylltiedig yn genedlaethol o reoli a rheoleiddio tomenni mwyngloddiau a chwareli nas defnyddir.

Fel Cadeirydd, rwy'n falch o fod yn helpu i sefydlu sefydliad a fydd yn gwneud cyfraniad parhaol i ddiogelwch y cyhoedd, stiwardiaeth amgylcheddol a hyder y cyhoedd. Mae gennym gyfle unigryw i anrhydeddu ein gorffennol, amddiffyn cymunedau heddiw a magu hyder ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy greu corff cyhoeddus modern sy'n gosod y safon ar gyfer sut y caiff diogelwch tomenni nas defnyddir ei ddeall, ei reoli a'i wella'n barhaus.

Ein huchelgais yw adeiladu sefydliad sy'n cael ei gydnabod am ei broffesiynoldeb, ei ragoriaeth dechnegol a'i ymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus. Bydd ein Cyfarwyddwyr Gweithredol yn chwarae rôl ganolog wrth lunio'r Awdurdod o'r cychwyn cyntaf, gan sefydlu'r diwylliant, y safonau a'r arweinyddiaeth a fydd yn diffinio sut rydym yn gweithio a'r hyder y mae eraill yn ei roi ynom.

Os ydych yn cael eich cymell gan wasanaeth cyhoeddus ac yn cael eich ysbrydoli gan y cyfle i helpu i adeiladu sefydliad cenedlaethol newydd o arwyddocâd parhaol i Gymru, rwy'n eich annog i wneud cais.

Edrychaf ymlaen at groesawu'r ymgeiswyr llwyddiannus wrth i ni ddechrau'r daith bwysig hon gyda'n gilydd.



**Fiona Jones OBE**
Cadeirydd



# Neges gan ein Prif Swyddog Gweithredol

Mae Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru yn cael ei greu i gyflawni rhywbeth pwysig: amddiffyn cymunedau, lleihau risg a chryfhau hyder y cyhoedd yn y ffordd y caiff diogelwch tomenni nas defnyddir ei reoli.

Mae hwn yn gyfle prin i ymuno â sefydliad cenedlaethol newydd ar ddechrau ei daith. Gyda'n gilydd, mae gennym gyfle i lunio nid yn unig sut y mae'r Awdurdod yn gweithredu, ond hefyd y diwylliant, y perthnasoedd a'r arweinyddiaeth a fydd yn ei ddiffinio am flynyddoedd i ddod.

I mi, mae adeiladu sefydliad llwyddiannus yn ymwneud â llawer mwy na strwythurau a systemau. Mae'n ymwneud â dod â phobl dalentog at ei gilydd sy'n rhannu ymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus, yn ymddiried yn arbenigedd ei gilydd ac yn cael eu cymell gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol i Gymru.

O'r diwrnod cyntaf, rydym wedi ymrwymo i greu sefydliad sy'n cyfuno gofal â chymhwysedd—un sydd:

- Wedi'i wreiddio mewn gwasanaeth cyhoeddus
- Yn gysylltiedig â chymunedau
- Yn cael ei ysgogi gan uniondeb, tryloywder a phroffesiynoldeb
- Yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau ystyrlon i Gymru

Rwyf am i'r Awdurdod fod yn lle y mae pobl yn falch o berthyn iddo; lle mae arbenigedd yn cael ei werthfawrogi, lle mae cydweithio'n dod yn naturiol a lle yr ymddiredir yn y bobl i ddefnyddio eu crebwyll i wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Rydym yn chwilio am arweinwyr eithriadol sydd:

- Yn chwilfrydig ac yn flaengar
- Yn gydweithredol ac yn gefnogol i eraill
- Wedi ymrwymo i wneud y peth iawn
- Yn barod i gymryd perchnogaeth ac atebolrwydd
- Yn ymroddedig i welliant parhaus a safonau uchel

Dyma arweinwyr sy'n deall nad yw rhagoriaeth a charedigrwydd yn flaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd—maent yn mynd law yn llaw.


Fel un o'n Cyfarwyddwyr Gweithredol sefydlu, byddwch yn chwarae rôl ddiffiniol wrth lunio nid yn unig yr hyn y mae'r Awdurdod yn ei gyflawni, ond hefyd sut y mae'n cael ei brofi gan gydweithwyr, partneriaid a chymunedau.

Byddwch yn helpu i sefydlu'r diwylliant, y gwerthoedd a'r dull arweinyddiaeth a fydd yn sail i'r sefydliad am flynyddoedd i ddod. Mae hynny'n gyfrifoldeb nad wyf yn ei gymryd yn ysgafn, ac rwy'n gobeithio ei fod yn un sy'n eich cyffroi gymaint ag y mae'n fy nghyffroi i.

Os ydych yn cael eich ysbrydoli gan y cyfle i adeiladu rhywbeth newydd, arwain newid ystyrlon a gwneud cyfraniad parhaol i Gymru, byddwn wrth fy modd yn clywed gennych.



**Christina Harrhy**
Prif Swyddog Gweithredol



# Ein Diben

## Creu Cymru Fwy Diogel

**Anrhydeddu ein gorffennol. Amddiffyn cymunedau heddiw. Magu hyder ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.**

Mae treftadaeth mwyngloddio a chwarela Cymru wedi llunio ein tirwedd, ein heconomi a'r cymunedau rydym yn eu hadnabod heddiw. Mae'n etifeddiaeth sydd wedi dod â ffyniant, balchder a hunaniaeth i genedlaethau o bobl ledled Cymru.

Mae hefyd wedi gadael cyfrifoldeb parhaol i ni.

Ledled Cymru, mae angen dealltwriaeth, asesiad a rheolaeth barhaus ar filoedd o domenni mwyngloddiau a chwareli nas defnyddir er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n ddiogel i'r cymunedau sy'n byw ac yn gweithio o'u cwmpas. Wrth i'n hinsawdd newid ac wrth i ddigwyddiadau tywydd ddod yn amlach ac yn fwy difrifol, ni fu'r cyfrifoldeb hwnnw erioed yn fwy.

Mae **Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir Cymru** wedi'i sefydlu o dan *Ddeddf Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) 2025* i ddarparu arweinyddiaeth, goruchwyliaeth a rheoleiddio cenedlaethol ar gyfer diogelwch tomenni mwyngloddiau a chwareli nas defnyddir.

**Mae ein diben yn glir, yn uchelgeisiol ac wedi'i wreiddio'n ddwfn yng Nghymru.**

**Anrhydeddu ein gorffennol — drwy reoli ei etifeddiaeth gyda chyfrifoldeb, gofal a phroffesiynoldeb.**

**Amddiffyn cymunedau heddiw — drwy reoleiddio cyson, dan arweiniad tystiolaeth, sy'n rhoi diogelwch y cyhoedd yn gyntaf.**

**Magu hyder ar gyfer y dyfodol — fel bod cenedlaethau'r dyfodol yn etifeddu Cymru fwy diogel, gryfach a mwy gwydn.**

Byddwn yn gweithio ochr yn ochr ag awdurdodau lleol, tirfeddianwyr, ymatebwyr brys, Llywodraeth Cymru a llawer o bartneriaid eraill er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu llywio gan dystiolaeth, eu harwain gan arbenigedd ac yn canolbwyntio ar amddiffyn pobl.

Mae popeth a wnawn wedi'i wreiddio mewn gwasanaeth cyhoeddus ac yn cael ei ysgogi gan un uchelgais a rennir: gwneud Cymru'n fwy diogel.

## Pam Mae Ein Gwaith yn Bwysig

## Amddiffyn pobl. Cefnogi cymunedau. Meithrin ymddiriedaeth

Mae gwaith yr Awdurdod yn ymestyn ymhell y tu hwnt i reoleiddio.

Mae'n ymwneud â rhoi hyder i gymunedau bod y risgiau sy'n gysylltiedig â thomenni nas defnyddir yn cael eu deall, eu rheoli'n gyfrifol a mynd i'r afael â nhw cyn iddynt ddod yn argyfyngau.

Mae'n ymwneud â chreu dull cyson yn genedlaethol, fel bod penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth, yn cael eu llywio gan arbenigedd ac yn cael eu cymhwyso'n deg ledled Cymru.

Mae'n ymwneud â dod â rhagoriaeth dechnegol, cydweithio ac arloesedd at ei gilydd i gryfhau'r ffordd y mae Cymru'n deall ac yn rheoli un o'i heriau diogelwch cyhoeddus mwyaf cymhleth.

Ac mae'n ymwneud â sicrhau nad oes unrhyw sefydliad yn gweithio ar ei ben ei hun. Mae amddiffyn cymunedau'n galw am bartneriaeth rhwng llywodraeth genedlaethol a lleol, ymatebwyr brys, tirfeddianwyr, arbenigwyr technegol a'r cymunedau eu hunain.

Fel y rheoleiddiwr cenedlaethol, mae gennym gyfrifoldeb nid yn unig i oruchwylio'r system fel y mae heddiw, ond i helpu i lunio sut y mae'n datblygu ar gyfer y dyfodol.

Mae hynny'n golygu buddsoddi mewn gwybodaeth, cefnogi gallu proffesiynol, croesawu arloesedd a helpu i greu system gryfach a mwy gwydn i Gymru.

Yn y pen draw, ni fydd ein llwyddiant yn cael ei fesur yn ôl y penderfyniadau a wnawn yn unig.

Caiff ei fesur yn ôl yr hyder yr ydym yn helpu i'w greu:

- ✓ hyder bod cymunedau'n fwy diogel;
- ✓ hyder bod risgiau'n cael eu deall a'u rheoli'n gymesur;
- ✓ hyder bod penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth ac arbenigedd; a
- ✓ hyder bod Cymru'n adeiladu etifeddiaeth barhaol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

I'n Cyfarwyddwyr Gweithredol sefydlu, mae hwn yn gyfle prin i lunio rhywbeth o arwyddocâd cenedlaethol. Byddwch yn helpu i sefydlu sefydliad newydd, dylanwadu ar broffesiwn sy'n datblygu a chwarae rôl arweiniol wrth greu Awdurdod a fydd yn gwasanaethu Cymru—a'i chymunedau—am genedlaethau i ddod.



# Ein Huchelgais

## Adeiladu Awdurdod cenedlaethol y gellir ymddiried ynddo

### Yn nodweddiadol Gymreig, yn enwog yn rhyngwladol.

Mae'r Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir wedi'i greu i wneud mwy na rheoleiddio.

Mae gennym gyfle i adeiladu corff cyhoeddus modern sy'n gosod y safon ar gyfer sut y caiff diogelwch tomenni mwyngloddiau a chwareli nas defnyddir ei ddeall, ei reoli a'i wella'n barhaus.

Ein huchelgais yw dod yn ganolfan arbenigedd gydnabyddedig Cymru ar gyfer diogelwch tomenni nas defnyddir—gan ddod â rhagoriaeth weithredol, rhagoriaeth dechnegol, ymchwil ac arloesedd ynghyd i gefnogi cymunedau heddiw wrth helpu i lunio dyfodol y proffesiwn.

Rydym am fod yn sefydliad y mae eraill yn edrych ato am arweinyddiaeth, cyngor a chydweithio. Un sy'n gweithio'n agored gydag awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, ymatebwyr brys, y byd academaidd, diwydiant a chyrff proffesiynol i gryfhau gallu ledled Cymru.

Mae cyflawni'r uchelgais hwnnw'n golygu buddsoddi nid yn unig yn ein pobl ein hunain, ond yn y system ehangach. Rydym am fod yn sefydliad sy'n nodweddiadol Gymreig ac yn enwog yn rhyngwladol.

Byddwn yn cefnogi datblygu safonau cenedlaethol, hyrwyddo rhagoriaeth broffesiynol, annog ymchwil ac arloesedd, a helpu i feithrin y sgiliau, y wybodaeth a'r partneriaethau sydd eu hangen i reoli diogelwch tomenni nas defnyddir am genedlaethau i ddod.

Fel Cyfarwyddwr Gweithredol sefydlu, byddwch yn helpu i lunio'r uchelgais hwnnw o'r cychwyn. Bydd y penderfyniadau a wnewch, y diwylliant a grëwch a'r perthnasoedd y byddwch yn eu meithrin yn dylanwadu ar yr Awdurdod ymhell ar ôl ei sefydlu.

### Creu Hyder

### Mae popeth a wnawn wedi'i gynllunio i fagu hyder.

**Hyder i gymunedau sy'n byw ger tomenni nas defnyddir** — bod risgiau'n cael eu deall, eu monitro a'u rheoli'n gyfrifol.

**Hyder i bartneriaid sy'n gwneud penderfyniadau pwysig** — eu bod yn cael eu cefnogi gan safonau clir, tystiolaeth ddibynadwy ac arbenigedd y gellir ymddiried ynddo.

**Hyder i'r llywodraeth** — bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol, yn gymesur ac yn dryloyw.

**Hyder i Gymru** — bod gennym y gallu, yr arbenigedd a'r arweinyddiaeth i ateb heriau'r dyfodol.

**Credwn fod hyder yn cael ei adeiladu ar dair sylfaen.**

| Tair sylfaen ar gyfer hyder |
| --- |
| **Cymhwysedd**<br>Datblygu pobl fedrus iawn sydd â'r arbenigedd, y crebwyll a'r safonau proffesiynol sydd eu hangen i ddeall risgiau cymhleth a gwneud penderfyniadau cadarn.<br>Byddwn yn buddsoddi mewn dysgu, arweinyddiaeth a datblygiad proffesiynol parhaus er mwyn sicrhau bod ein pobl yn parhau ar flaen y gad yn eu proffesiwn.<br>**Cysondeb**<br>Creu dull cyson yn genedlaethol o reoleiddio drwy safonau clir, gwneud penderfyniadau dan arweiniad tystiolaeth ac arfer cymesur, tryloyw.<br>Dylai cymunedau fod yn hyderus bod risgiau'n cael eu hasesu'n deg a'u rheoli'n gyson ble bynnag y maent yn byw yng Nghymru.<br>**Capasiti**<br>Meithrin gallu ledled Cymru drwy weithio ar y cyd ag awdurdodau lleol, cyrff proffesiynol, prifysgolion a phartneriaid i gryfhau arbenigedd, datblygu talent y dyfodol a gwella gwydnwch ar draws y system ehangach.<br>Gyda'i gilydd, mae'r tair sylfaen hyn yn ein galluogi i gyflawni ein diben:<br>**Anrhydeddu ein gorffennol. Amddiffyn cymunedau heddiw. Magu hyder ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.**<br>**Dyma'r sefydliad rydym yn ei greu.** |



# Ein Haddewid i Chi

Fel un o gyrff cyhoeddus mwyaf newydd Cymru, mae gennym gyfle unigryw i greu nid yn unig sefydliad newydd, ond lle gwych i weithio. Wrth i'r Awdurdod dyfu a datblygu, byddwn yn tyfu gyda'n gilydd — gan ddatblygu ein pobl, creu Cymru fwy diogel a meithrin ymddiriedaeth a hyder gyda'r cymunedau a wasanaethwn. Gyda'i gilydd, mae'r pedwar ymrwymiad hyn yn adlewyrchu ein haddewid i chi.

**Denu. Adeiladu. Perthyn. Ffynnu.**

Denu ar sail meddylfryd. Adeiladu ar sail gallu. Perthyn drwy ddiwylliant. Ffynnu drwy ddiben.

1. **Denu - Ymuno er mwyn y diben. Aros er mwyn yr effaith.**

Mae hwn yn gyfle prin i ymuno â sefydliad ar adeg ei sefydlu, gan helpu i lunio nid yn unig yr hyn a wnawn, ond sut y gwnawn hynny. Byddwch yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr talentog, o fewn y sefydliad ac ar draws ein partneriaid, sy'n rhannu ymrwymiad i amddiffyn cymunedau, datrys heriau cymhleth ac adeiladu rhywbeth o arwyddocâd parhaol i Gymru.

Rydym am ddenu pobl amrywiol a thalentog sy'n cael eu cymell gan ein diben cyffredin o greu Cymru fwy diogel ac sy'n gyffrous am y cyfle i helpu i adeiladu sefydliad newydd

Mae hwn yn gyfle prin i ymuno â sefydliad o'r cychwyn cyntaf, gan helpu i lunio nid yn unig yr hyn a wnawn, ond sut y gwnawn hynny.

Byddwch yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr talentog o fewn y sefydliad ac ar draws ein partneriaid sy'n rhannu ymrwymiad i amddiffyn cymunedau, datrys heriau cymhleth ac adeiladu rhywbeth o arwyddocâd parhaol i Gymru.

2. **Adeiladu - Tyfu gyda ni.**

Rydym yn adeiladu mwy na sefydliad newydd.

Rydym yn adeiladu gallu newydd, ffyrdd newydd o weithio a phroffesiwn cenedlaethol newydd.

Byddwn yn buddsoddi mewn dysgu, arweinyddiaeth a datblygiad proffesiynol, gan greu cyfleoedd i bobl ehangu eu profiad, cryfhau eu harbenigedd a pharhau i dyfu drwy gydol eu gyrfaoedd.

Rydym yn gwerthfawrogi chwilfrydedd, yn annog arloesedd ac yn credu y dylai pawb gael y cyfle i ddysgu, cyfrannu a datblygu.

Wrth i'r Awdurdod dyfu, felly hefyd y bydd y cyfleoedd i'n pobl.

3. **Perthyn - Byddwch yn chi eich hun.**

Rydym am i bawb deimlo eu bod yn perthyn o'r eiliad y byddant yn ymuno â ni.

Byddwn yn creu ac yn meithrin amgylchedd cynhwysol, parchus a chefnogol lle mae gwahanol safbwyntiau'n cael eu croesawu, lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel i gyfrannu a herio a lle caiff pawb eu trin â pharch.

Rydym am fod yn sefydliad ag wyneb dynol—un lle mae pobl yn adnabod ei gilydd, yn gwerthfawrogi arbenigedd ei gilydd ac yn mwynhau gweithio gyda'i gilydd i gyflawni rhywbeth sy'n bwysig.

4. **Ffynnu - Gwnewch eich gwaith gorau.**

Credwn fod pobl yn perfformio ar eu gorau pan ymddiredir ynddynt, pan gânt eu cefnogi a phan roddir yr hyder iddynt i ddefnyddio eu crebwyll.

Byddwn yn creu amgylchedd lle mae disgwyliadau uchel yn cyd-fynd â gofal gwirioneddol am lesiant, hyblygrwydd a thwf personol.

Byddwch yn cael eich annog i gymryd perchnogaeth, cyfrannu syniadau a helpu i lunio sut y mae'r Awdurdod yn datblygu wrth iddo dyfu.

Oherwydd pan fydd ein pobl yn ffynnu, mae ein sefydliad yn ffynnu—ac mae'r cymunedau a wasanaethwn yn cael budd hefyd.



# Eich Addewid i Ni

Yn gyfnewid am hynny, gofynnwn i bawb sy'n ymuno â'r Awdurdod rannu ein hymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus ac i'r ffordd rydym yn gweithio gyda'n gilydd.

Gofynnwn i chi:

- ✓ ofalu am amddiffyn pobl a chryfhau diogelwch y cyhoedd;
- ✓ cymryd perchnogaeth a chyflawni eich ymrwymiadau;
- ✓ gweithio'n gydweithredol, gan rannu gwybodaeth a chefnogi eraill;
- ✓ aros yn chwilfrydig, yn agored i ddysgu ac yn ymrwymedig i wella; a
- ✓ gweithredu ag uniondeb, proffesiynoldeb a chrebwyll cadarn.

Bydd y sefydliad rydym yn ei adeiladu yn cael ei ddiffinio nid yn unig gan yr hyn a gyflawnwn, ond gan sut y cyflawnwn hynny.

**Gyda'n gilydd, byddwn yn anrhydeddu ein gorffennol, yn amddiffyn cymunedau heddiw ac yn magu hyder ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.**



# Y Cyfle

## Cyfarwyddwr Data a Sicrwydd

Ystod cyflog £82,089 - £99,500

**Arwain y swyddogaethau gwybodaeth, mewnwelediad a sicrwydd a fydd yn sail i reoleiddiwr cenedlaethol diweddaraf Cymru.**

Mae hwn yn gyfle prin i helpu i sefydlu corff cyhoeddus cenedlaethol newydd o'r gwaelod i fyny ac i lunio'r modd y bydd Cymru'n deall, yn monitro ac yn rheoli risg tomenni nas defnyddir am genedlaethau i ddod.

A chithau'n Gyfarwyddwr Data a Sicrwydd, byddwch yn darparu arweinyddiaeth weithredol ar gyfer swyddogaethau data, digidol, ymchwil, safonau a sicrwydd yr Awdurdod, gan sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu llywio gan wybodaeth ddibynadwy, tystiolaeth gadarn a dealltwriaeth glir o risg.

Byddwch yn chwarae rôl ganolog wrth greu sefydliad lle mae risg yn cael ei deall yn glir, lle mae gwybodaeth yn gywir ac yn ddibynadwy, a lle mae gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth yn rhan annatod o bob lefel. Drwy eich arweinyddiaeth, bydd yr Awdurdod yn datblygu'r gallu technegol, y wybodaeth a'r arloesedd sydd eu hangen i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol ac i gynnal hyder y cyhoedd.

Gan weithio'n agos â Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, sefydliadau academaidd, arbenigwyr technegol, rheoleiddwyr a phartneriaid cyflawni, byddwch yn helpu i sefydlu'r Awdurdod fel canolfan ragoriaeth gydnabyddedig mewn data, tystiolaeth, ymchwil ac arweinyddiaeth dechnegol.

Fel aelod o'r Tîm Gweithredol, byddwch yn helpu i lunio nid yn unig sut y mae'r Awdurdod yn gweithredu, ond pa mor hyderus y mae'n deall risg, yn ymateb i heriau sy'n dod i'r amlwg ac yn dangos bod diogelwch y cyhoedd yn cael ei reoli'n effeithiol ledled Cymru.

**Mae hwn yn gyfle i greu systemau, gallu a gwybodaeth a fydd yn cael effaith barhaol ar Gymru.**

### Yr hyn y byddwch yn gyfrifol amdano

### Arwain Data, Gwybodaeth a Sicrwydd

Byddwch yn sefydlu ac yn arwain fframwaith integredig ar gyfer data, gwybodaeth, ymchwil, safonau a sicrwydd, gan sicrhau bod gwybodaeth a thystiolaeth o ansawdd uchel wrth wraidd y gwaith o wneud penderfyniadau sefydliadol a rheoli risg.

### Darparu Dealltwriaeth Genedlaethol Glir o Risg

Byddwch yn sicrhau bod yr Awdurdod yn cynnal dealltwriaeth ddibynadwy, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, o risg tomenni nas defnyddir ledled Cymru, gan ddarparu mewnwelediad a gwybodaeth sy'n cefnogi blaenoriaethu gweithredol, gwneud penderfyniadau strategol a hyder y cyhoedd.

### Sbarduno Arloesedd a Rhagoriaeth Dechnegol

Byddwch yn darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer arloesedd digidol, systemau gwybodaeth a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg, gan sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau ar flaen y gad o ran gallu technegol, monitro ac asesu risg.

### Cryfhau Tystiolaeth, Ymchwil a Dysgu

Byddwch yn hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu a chymhwyso ymchwil, safonau a dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan sicrhau bod dysgu sefydliadol, gwelliant parhaus a rhagoriaeth dechnegol yn rhan annatod o waith yr Awdurdod.

### Cefnogi Cynllunio ar Sail Risg a Gwybodaeth am Asedau

Byddwch yn sicrhau bod tystiolaeth, mewnwelediad a gwybodaeth am asedau'n llywio cynllunio strategol, blaenoriaethu a phenderfyniadau ymyrryd, gan weithio'n gydweithredol â phartneriaid a rhanddeiliaid.

### Gweithio ar Draws y System

Byddwch yn meithrin perthnasoedd dibynadwy â Llywodraeth Cymru, rheoleiddwyr, y byd academaidd, arbenigwyr technegol, partneriaid digidol a sefydliadau cyflawni, gan gydnabod bod rheoli risg yn effeithiol yn dibynnu ar gydweithio, arbenigedd a dealltwriaeth gyffredin.

### Darparu Hyder a Sicrwydd

Byddwch yn darparu sicrwydd i'r Prif Weithredwr, y Bwrdd, Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd bod risgiau'n cael eu deall yn glir, bod gwybodaeth yn ddibynadwy a bod dulliau dan arweiniad tystiolaeth yn cael eu cymhwyso'n gyson ledled Cymru.

### Llunio'r Awdurdod

Fel un o'n Cyfarwyddwyr Gweithredol sefydlu, byddwch yn cyfrannu at arweinyddiaeth strategol ehangach y sefydliad, gan helpu i sefydlu'r diwylliant, y gwerthoedd, yr ymddygiad a'r systemau a fydd yn diffinio'r Awdurdod am flynyddoedd i ddod.



# Manyleb y Person

Rydym yn chwilio am arweinydd eithriadol sy'n gallu cyfuno arbenigedd technegol, mewnwelediad strategol ac arweinyddiaeth gydweithredol i helpu i sefydlu corff cyhoeddus cenedlaethol newydd a gadael etifeddiaeth barhaol i Gymru.

Bydd gennych y crebwyll, yr hygrededd a'r gallu arwain sydd eu hangen i weithredu mewn amgylchedd cymhleth, proffil uchel a hanfodol o ran diogelwch, gan sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu llywio gan dystiolaeth gadarn, gwybodaeth ddibynadwy a dealltwriaeth glir o risg.

Byddwch yn angerddol am bŵer data, mewnwelediad, arloesedd a sicrwydd i wella'r gwaith o wneud penderfyniadau, cryfhau hyder y cyhoedd a chefnogi cyflawni gweithredol effeithiol.

Yn bwysicaf oll, byddwch yn gyffrous am y cyfle i helpu i adeiladu sefydliad newydd o'r gwaelod i fyny ac i sefydlu'r Awdurdod fel canolfan ragoriaeth gydnabyddedig mewn data, tystiolaeth ac arweinyddiaeth dechnegol.

## 1. A oes gennych y galluoedd technegol i wneud y rôl yn dda?

Rydym yn chwilio am ymgeiswyr sy'n gallu dangos profiad a gallu yn y meysydd canlynol:

### Data, Gwybodaeth a Gwneud Penderfyniadau ar Sail Tystiolaeth

- Arwain swyddogaethau data, dadansoddi, gwybodaeth neu sicrwydd o fewn sefydliadau cymhleth.
- Defnyddio gwybodaeth, tystiolaeth a mewnwelediad i gefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau strategol a pherfformiad sefydliadol.

### Risg, Sicrwydd a Chywirdeb Gwybodaeth

- Datblygu a chynnal systemau gwybodaeth, setiau data, cofrestrau neu fframweithiau sicrwydd dibynadwy.
- Rhoi hyder yn ansawdd a chywirdeb y wybodaeth a ddefnyddir i lywio'r gwaith o wneud penderfyniadau.

### Arloesedd Digidol ac Arweinyddiaeth Dechnegol

- Arwain y gwaith o ddatblygu a chymhwyso atebion digidol, technolegol neu arloesol i wella gallu a chanlyniadau sefydliadol.
- Hyrwyddo'r defnydd effeithiol o dechnoleg, data a dulliau newydd sy'n dod i'r amlwg i gefnogi monitro, dadansoddi a rheoli risg.

### Ymchwil, Safonau a Gwelliant Parhaus

- Arwain y gwaith o ddatblygu a chymhwyso ymchwil, safonau technegol neu ddulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Troi gwybodaeth dechnegol gymhleth yn atebion ymarferol sy'n gwella perfformiad, cysondeb a dysgu sefydliadol.

### Cynllunio dan Arweiniad Tystiolaeth a Gwybodaeth am Asedau

- Goruchwylio rhaglenni cymhleth, cynllunio hirdymor neu weithgarwch rheoli asedau.
- Sicrhau bod adnoddau, ymyriadau a blaenoriaethau'n cael eu cysoni â thystiolaeth, risg ac amcanion sefydliadol.

### Arweinyddiaeth Weithredol a Chyfraniad Corfforaethol

- Darparu cyngor strategol, sicrwydd ac argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth i Fyrddau, Gweinidogion neu uwch randdeiliaid.
- Gweithio'n effeithiol fel rhan o Dîm Gweithredol i gyflawni blaenoriaethau sefydliadol a gwerth cyhoeddus.

### Partneriaeth ac Arweinyddiaeth Systemau

- Meithrin perthnasoedd dibynadwy â'r Llywodraeth, rheoleiddwyr, arbenigwyr technegol, sefydliadau academaidd a phartneriaid cyflawni.
- Gweithio'n gydweithredol ar draws ffiniau sefydliadol i gyflawni canlyniadau a rennir ac i gryfhau gallu sefydliadol.

### Cyfathrebu a Chrebwyll Strategol

- Cyfleu gwybodaeth dechnegol, ddigidol neu ddadansoddol gymhleth yn glir ac yn hyderus.
- Gwneud penderfyniadau cytbwys, cymesur ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth, mewn sefyllfaoedd sy'n cynnwys ansicrwydd, risg neu graffu cyhoeddus.

## 1. A ydych yn rhannu ein gwerthoedd?

Dim ond un rhan o arweinyddiaeth effeithiol yw arbenigedd technegol. Rydym yn creu sefydliad lle mae sut rydym yn gweithio yr un mor bwysig â'r hyn a gyflawnwn.

Mae ein gwerthoedd yn arwain pob penderfyniad a wnawn ac yn llunio'r diwylliant rydym yn ei adeiladu gyda'n gilydd.

Fel un o'n Cyfarwyddwyr Gweithredol sefydlu, byddwch yn chwarae rôl hanfodol wrth ddod â'r gwerthoedd hyn yn fyw.

**Rydym yn Gwneud Cymru'n Fwy Diogel -** Rydym yn rhoi diogelwch y cyhoedd wrth wraidd pob penderfyniad a phob gweithred.

**Rydym yn Gwneud y Peth Iawn -** Rydym yn gweithredu ag uniondeb, proffesiynoldeb ac atebolrwydd, hyd yn oed pan fo penderfyniadau'n anodd.

**Rydym yn Cymryd Perchnogaeth -** Rydym yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig, yn cyflawni ein hymrwymiadau ac yn cymryd cyfrifoldeb am gyflawni canlyniadau cadarnhaol.

**Rydym yn Gweithio Gyda'n Gilydd -** Rydym yn cyflawni mwy drwy bartneriaeth, cydweithio a pharch at ein gilydd.

**Rydym yn Dysgu ac yn Gwella -** Rydym yn chwilfrydig, yn uchelgeisiol ac wedi ymrwymo i wella ein hunain, ein sefydliad a'r gwasanaethau a ddarparwn yn barhaus.

## 2. A allwch fodloni ein disgwyliadau Arweinyddiaeth?

Nid yw arweinyddiaeth yn yr Awdurdod yn cael ei diffinio yn ôl gradd na theitl swydd.

Caiff ei dangos drwy'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau, yn cefnogi eraill ac yn cyflawni ar ran y cymunedau a wasanaethwn.

Rydym yn disgwyl i'n holl arweinwyr:

**Arwain ag Uniondeb a Diben –** Rhoi eglurder, gweithredu'n onest a meithrin ymddiriedaeth drwy arweinyddiaeth gyson sy'n cael ei harwain gan werthoedd.

**Rhoi Pobl yn Gyntaf –** Creu amgylchedd cynhwysol lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi ac yn gallu cyfrannu eu gorau.

**Cydweithio er mwyn Effaith –** Meithrin perthnasoedd cryf ar draws ffiniau sefydliadol, proffesiynol a sector i gyflawni canlyniadau a rennir.

**Sbarduno Rhagoriaeth ac Arloesedd –** Hyrwyddo dysgu, croesawu arloesedd a defnyddio tystiolaeth i wella perfformiad sefydliadol yn barhaus.

**Cymryd Perchnogaeth a Chyflawni –** Arwain yn hyderus, cymryd cyfrifoldeb a sicrhau bod cynlluniau'n cael eu troi'n ganlyniadau ystyrlon.

**Meddwl yn Strategol a Gweithredu'n Bendant –** Cydbwyso tystiolaeth, risg a blaenoriaethau sefydliadol i wneud penderfyniadau gwybodus sy'n cefnogi hyder y cyhoedd a llwyddiant hirdymor.

Mae'r rôl hon yn galw am arweinydd sy'n gallu ysbrydoli hyder mewn data, tystiolaeth a sicrwydd, gan sicrhau bod penderfyniadau'r Awdurdod yn cael eu llywio gan wybodaeth ddibynadwy, crebwyll cadarn ac ymrwymiad di-ildio i amddiffyn cymunedau ledled Cymru.



# Sut i Wneud Cais

Mae gwneud cais am y rôl yn syml. Mae **tair rhan** i'r broses ymgeisio.

| Bydd eich cais yn cynnwys tair rhan | |
|---|---|
| **01 Cofrestru** | Llenwch y ffurflen gofrestru ar-lein gyda'ch manylion personol a'ch gwybodaeth gyswllt. |
| **02 Eich CV** | Defnyddiwch eich CV i ddangos ehangder, dyfnder, graddfa ac effaith eich profiad yn erbyn y Galluoedd Technegol a'r Datganiad Profiad Arweinyddiaeth a nodir ym Manyleb y Person. |
| **03 Datganiad Profiad Arweinyddiaeth** | Dangoswch sut rydych yn arwain, gan ddefnyddio enghreifftiau ymarferol yn erbyn ein galluoedd Technegol a'n disgwyliadau arweinyddiaeth ac esbonio sut mae eich profiad wedi eich paratoi ar gyfer y rôl hon. |

### Eich CV

Caiff hwn ei ddefnyddio i asesu'r Galluoedd Technegol a'n Datganiad Profiad Arweinyddiaeth a nodir ym Manyleb y Person. Dylai ddangos ehangder a dyfnder eich profiad, gan dynnu sylw at raddfa, cymhlethdod ac effaith y rolau rydych wedi ymgymryd â nhw a'r canlyniadau rydych wedi'u cyflawni.

Mae gennym ddiddordeb penodol mewn tystiolaeth o'ch profiad o:

- ✓ arwain swyddogaethau data, digidol, technegol, dadansoddi neu sicrwydd o fewn sefydliadau cymhleth;
- ✓ datblygu a chymhwyso data, gwybodaeth, ymchwil neu ddulliau dan arweiniad tystiolaeth i gefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau a rheoli risg;
- ✓ gweithredu systemau digidol, technolegau arloesol neu welliannau sefydliadol sy'n gwella gallu a pherfformiad sefydliadol;
- ✓ rheoli risgiau sefydliadol, amgylcheddol neu ddiogelwch cyhoeddus sylweddol;
- ✓ darparu cyngor strategol, sicrwydd neu argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth i Fyrddau, Gweinidogion neu uwch arweinwyr;

- ✓ sefydlu a chynnal fframweithiau gwybodaeth, sicrwydd neu lywodraethu dibynadwy;
- ✓ arwain timau amlddisgyblaethol a meithrin gallu technegol; a
- ✓ meithrin partneriaethau effeithiol â'r llywodraeth, rheoleiddwyr, y byd academaidd, arbenigwyr technegol neu bartneriaid cyflawni i gyflawni canlyniadau a rennir.

Yn hytrach nag ymateb i bob gallu ar wahân, rydym yn eich annog i gyflwyno naratif gyrfa clir a chryno sy'n dangos eich profiad, eich cyflawniadau a'r effaith rydych wedi'i chael drwy gydol eich gyrfa.

### Eich Datganiad Profiad Arweinyddiaeth

Dyma eich cyfle i ddangos sut rydych yn arwain – gan ddangos enghreifftiau ymarferol yn erbyn ein disgwyliadau arweinyddiaeth.

Mae gennym ddiddordeb nid yn unig yn yr hyn rydych wedi'i gyflawni, ond sut rydych wedi arwain pobl, gwneud penderfyniadau a chyflawni canlyniadau mewn amgylcheddau cymhleth.

Yn yr adran hon, dywedwch wrthym sut mae eich profiad, eich gwybodaeth a'ch cyflawniadau wedi eich paratoi ar gyfer y rôl Cyfarwyddwr Data a Sicrwydd.

Dylai eich datganiad ddangos sut rydych yn:

- ✓ arwain ag uniondeb a diben;
- ✓ rhoi pobl yn gyntaf;
- ✓ cydweithio er mwyn effaith;
- ✓ sbarduno rhagoriaeth ac arloesedd;
- ✓ meddwl yn strategol a gweithredu'n bendant; a
- ✓ chymryd perchnogaeth a chyflawni.

### Ein Proses Asesu

Drwy gydol y broses recriwtio, byddwn yn asesu ymgeiswyr yn erbyn tri maes:

| Maes Asesu | Byddwn yn asesu hyn drwy |
|---|---|
| **Gallu Technegol** | CV, Datganiad Profiad Arweinyddiaeth cyflwyniad a chyfweliad |
| **Disgwyliadau Arweinyddiaeth** | Datganiad Profiad Arweinyddiaeth a chyfweliad |

| Maes Asesu | Byddwn yn asesu hyn drwy |
|---|---|
| **Gwerthoedd** | Datganiad Profiad Arweinyddiaeth, asesiad seicometrig a chyfweliad |

Lle bo ymgeiswyr yn cyfateb yn agos, **Gallu Technegol ac Arbenigedd Proffesiynol** fydd y prif feini prawf ar gyfer penodi, gan adlewyrchu pwysigrwydd gwneud penderfyniadau dan arweiniad tystiolaeth, crebwyll technegol ac arweinyddiaeth sicrwydd yn y rôl.

### Asesiad Seicometrig

Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cwblhau asesiad seicometrig i roi mewnwelediad ychwanegol i'w harddull arweinyddiaeth, eu gwerthoedd a'u dewisiadau.

Yr asesiad:

- ✓ **nid yw'n cael ei sgorio**;
- ✓ **nid yw'n pennu dilyniant**; ac
- ✓ mae'n cael ei ddefnyddio i lywio trafodaeth yn ystod y cyfweliad.

### Cyfweliad

Mae'r cyfweliad wedi'i gynllunio i archwilio eich profiad, eich arweinyddiaeth a'ch addasrwydd ar gyfer y rôl.

Bydd yn cynnwys:

- ✓ cyflwyniad technegol;
- ✓ cwestiynau am eich arddull arweinyddiaeth a'ch profiad; a
- ✓ thrafodaeth am eich gwerthoedd.

Er mwyn cefnogi eich paratoadau, caiff cwestiynau disgwyliadau Arweinyddiaeth a phwnc y cyflwyniad eu rhannu **bum diwrnod gwaith cyn y cyfweliad**. Bydd cwestiynau sy'n seiliedig ar werthoedd yn cael eu gofyn yn ystod y cyfweliad ac ni chânt eu rhannu ymlaen llaw.

### Cipolwg ar Recriwtio

| Cam | Yr hyn y byddwch yn ei wneud | Yr hyn y byddwn yn ei asesu |
|---|---|---|
| **01 Cais** | Cofrestru, CV a Datganiad Profiad Arweinyddiaeth | Gallu Technegol a Disgwyliadau Arweinyddiaeth |

| | | |
|---|---|---|
| **02 Asesiad Seicometrig** | Asesiad ar-lein | Trafodaeth am werthoedd yn unig — heb ei asesu |
| **03 Cyfweliad** | Cyflwyniad a chyfweliad panel | Gallu Technegol, Gwerthoedd a Disgwyliadau Arweinyddiaeth |



# Taith Recriwtio


Mae'r broses isod yn dangos y daith recriwtio ddisgwyliedig o lansio'r hysbyseb hyd at benodi. Mae'r dyddiadau'n rhai dangosol a gallant newid.

| Taith Recriwtio | | |
|---|---|---|
| **1. Ceisiadau'n agor**<br>yr wythnos sy'n dechrau 3 Awst | Cyhoeddi briff yr ymgeisydd a manylion y cais. | Dechrau |
| **2. Ceisiadau'n cau**<br>11 Medi | Dyddiad olaf i ymgeiswyr gyflwyno eu cais. | Dyddiad cau |
| **3. Sifftio**<br>Caniatáu hyd at 2 wythnos i ganlyniadau'r sifftio gael eu cyhoeddi | Adolygu ceisiadau yn erbyn gofynion y rôl. | Adolygu |
| **4. Gweithgareddau asesu**<br>Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael manylion yr asesiad o fewn 5 diwrnod gwaith i ganlyniadau'r sifftio | Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cwblhau gweithgareddau asesu perthnasol cyn y cyfweliad; bydd y rhain yn cynnwys profion seicometrig. | Asesu |
| **5. Cyfweliad**<br>Disgwylir i'r cyfweliadau gael eu cynnal dros gyfnod o 2 wythnos | Bydd y cyfweliadau terfynol yn archwilio gallu technegol, gwerthoedd a disgwyliadau arweinyddiaeth. | Cyfweliad |
| **6. Canlyniad / penderfyniad** | Cyhoeddir penderfyniadau canlyniad a gwybodaeth am gynnig i ymgeiswyr. | Canlyniad |

| | | |
|---|---|---|
| **cynnig**<br>Cyhoeddir y canlyniadau o fewn 10 diwrnod gwaith | | |
| **7. Gwiriadau cyn cyflogi a diogelwch**<br>Disgwylir i'r gwiriadau cyn cyflogi a diogelwch gymryd 4-8 wythnos | Caiff y gwiriadau eu cwblhau cyn cadarnhau'r penodiad a byddant yn cynnwys yr holl ofynion cyn cyflogi a chlirio diogelwch angenrheidiol. | Gwiriadau |
| **8. Ymgysylltu â rhanddeiliaid**<br>Caiff rhagor o fanylion eu rhannu unwaith y cytunir ar y cynnig terfynol | Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cwrdd â rhanddeiliaid allweddol neu gynrychiolwyr y Bwrdd. | Ymgysylltu |
| **9. Dyddiad dechrau**<br>Cytuno ar ddyddiad dechrau ar ôl y cyfnod rhybudd | Cytuno ar ddyddiad dechrau ar ôl cwblhau'r gwiriadau ac unrhyw gyfnod rhybudd gofynnol. | Dechrau |

**Cyfathrebu yn ystod yr ymgyrch:** Caiff yr holl ddiweddariadau ffurfiol eu cyhoeddi drwy system recriwtio ar-lein Llywodraeth Cymru, gan gynnwys canlyniadau ceisiadau, camau nesaf a threfniadau asesu neu gyfweld. Dylai ymgeiswyr fonitro'r porth recriwtio, y cyfeiriad e-bost a ddefnyddiwyd ar gyfer eu cais, a'r ffolderi sbam neu sothach drwy gydol yr ymgyrch. Atebwch unrhyw geisiadau am wybodaeth erbyn y dyddiad cau a nodwyd.

Am ymholiadau ynghylch y broses recriwtio, cysylltwch â [DisusedTipsAuthorityJobs@gov.wales](mailto:DisusedTipsAuthorityJobs@gov.wales)



# Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

### Cynhwysol o'r cychwyn

Rydym wedi ymrwymo i adeiladu sefydliad amrywiol, hygyrch a chynhwysol lle mae

pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu ac yn gallu llwyddo. Rydym yn gwerthfawrogi ehangder y profiad, y safbwyntiau a'r cefndiroedd y gall ymgeiswyr eu cynnig, ac yn cydnabod bod amrywiaeth yn cryfhau'r broses o wneud penderfyniadau, diwylliant sefydliadol a chanlyniadau i gymunedau ledled Cymru. Rydym yn cefnogi gweithio hyblyg a hybrid, yn darparu addasiadau rhesymol lle bo angen, ac yn cydnabod bod pobl yn gweithio mewn gwahanol ffyrdd. Drwy greu amgylchedd sy'n cefnogi llesiant, hyblygrwydd a pherthyn, rydym yn galluogi ein pobl i berfformio ar eu gorau.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl ag amrywiaeth eang o gefndiroedd a phrofiadau. Rydym wedi ymrwymo i recriwtio teg sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac i ddarparu addasiadau rhesymol lle bo angen fel y gall ymgeiswyr gymryd rhan lawn a pherfformio ar eu gorau drwy gydol y broses. Croesewir ceisiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg, a chaiff ceisiadau a gyflwynir yn y naill iaith neu'r llall eu trin yn gyfartal. Rydym yn annog ymgeiswyr i roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl a fyddai unrhyw addasiadau neu gymorth yn eu helpu i gymryd rhan yn y broses recriwtio.

### Mae ein hymrwymiadau'n cynnwys:

- ✓ Recriwtio teg, tryloyw sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- ✓ Arferion cynhwysol wedi'u hymgorffori ym mhob cam o'r broses
- ✓ Addasiadau rhesymol i ymgeiswyr sydd eu hangen
- ✓ Diwylliant o urddas, parch a pherthyn
- ✓ Cydnabyddiaeth a chefnogaeth i'r Gymraeg a hunaniaeth Gymreig



# Gwobrwyo a Buddiannau

Mae'r Awdurdod yn cynnig pecyn gwobrwyo a buddiannau cynhwysfawr sydd wedi'i gynllunio i gefnogi llesiant, hyblygrwydd, twf proffesiynol ac amgylchedd gwaith cynaliadwy. Mae'r cynnig yn adlewyrchu ein hymrwymiad i helpu cydweithwyr i ffynnu'n bersonol ac yn broffesiynol.

**Cipolwg:**

✓ Cyflog cystadleuol

✓ Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

✓ 31 diwrnod o wyliau blynyddol

✓ 8 diwrnod o wyliau banc

✓ 3 diwrnod braint

✓ Gweithio hyblyg a hybrid

✓ Parcio am ddim yn y pencadlys

✓ Awr Lesiant

✓ Hyd at bum diwrnod o absenoldeb gwirfoddoli â thâl

✓ Dysgu a datblygiad proffesiynol.



# Neges i Gloi

Mae'r Awdurdod Tomenni Nas Defnyddir yn fwy na chorff cyhoeddus newydd. Mae'n gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i adeiladu sefydliad a fydd yn gwneud Cymru'n fwy diogel, yn cryfhau hyder yn ein cymunedau, ac yn gadael etifeddiaeth barhaol i genedlaethau'r dyfodol.

Fel un o'n Cyfarwyddwyr Gweithredol sefydlu, byddwch yn helpu i lunio nid yn unig yr hyn y mae'r Awdurdod yn ei gyflawni, ond y diwylliant, y gwerthoedd a'r arweinyddiaeth sy'n ei ddiffinio o'r cychwyn cyntaf. Caiff eich dylanwad ei deimlo ar draws y sefydliad, o fewn y cymunedau a wasanaethwn, ac yn yr effaith a gawn ar gyfer Cymru.

Os ydych yn cael eich ysbrydoli gan wasanaeth cyhoeddus, eich cymell gan wneud gwahaniaeth pendant, a'ch cyffroi gan y cyfle i adeiladu rhywbeth gwirioneddol nodedig, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

Ymunwch â ni i greu sefydliad sydd wedi'i wreiddio yng Nghymru, y mae cymunedau'n ymddiried ynddo, ac sy'n cael ei gydnabod am ragoriaeth wrth gadw pobl yn ddiogel.

**Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.**